Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

DATGAN BUDDIANNAU O DAN GOD YMDDYGIAD YR AELODAU

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob aelod, o fewn 28 diwrnod o'u hethol neu eu penodi i'r swydd, lenwi ffurflen datgan buddiannau i gofrestru unrhyw fuddiannau personol sydd ganddynt yn y categorïau buddiannau a nodir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau. Pan fydd unrhyw aelod yn dod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd, mae'n ofynnol iddynt hefyd, o fewn 28 diwrnod o ddod yn ymwybodol o'r buddiant newydd hwnnw, ddiweddaru eu cofrestr buddiannau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro.

DATGAN BUDDIANNAU MEWN CYFARFODYDD

Yn ogystal â chwblhau ffurflen datgan buddiannau, mae'n ofynnol hefyd i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau ar ddechrau unrhyw gyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol, neu unrhyw un o'i is-bwyllgorau, lle mae'r buddiant penodol yn gwrthdaro ag unrhyw fater i'w drafod yn y cyfarfod. Wrth wneud datganiad o fuddiant, dylai aelodau nodi a yw'r buddiant yn bersonol neu'n rhagfarnus. Mater i'r aelod yw p'un ai a yw'n dewis datgan buddiant ai peidio, ac a yw'r buddiant hwnnw'n bersonol neu'n rhagfarnus. Dylai Aelodau gyfeirio at y Cod Ymddygiad a gofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro cyn dechrau'r cyfarfod. Os daw aelodau'n ymwybodol o fuddiant posibl yn ystod y cyfarfod, dylent wneud datganiad cyn gynted â phosibl a cheisio cyngor gan y cynrychiolydd cyfreithiol os oes angen.

O ran buddiannau personol, caiff aelodau aros yn y cyfarfod a chymryd rhan mewn unrhyw ddadl a phleidleisio ar yr eitem o fusnes. O ran buddiannau rhagfarnus, rhaid iddynt adael y cyfarfod ar unwaith a pheidio â chymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio ar yr eitemau hynny y maent wedi datgan buddiant rhagfarnus ynddynt.

Cofnodir y buddiant yng nghofnodion y cyfarfod.

Am gyngor pellach, cysylltwch â:
Jayne La Grua, Swyddog Monitro
E-bost: MonitoringOfficer@cardiffcapitalregion.gov.uk